**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 10 Awst 2020 drwy Skype**

YN BRESENNOL

<u>Yn cynrychioli'r Cyflogwr:</u>
Y Cyng, Bryan Apsley
Y Cyng. J B Hughes
Ken Finch, Trysorydd
Gareth Owens, Dirprwy Glerc

<u>Yn cynrychioli'r Gweithwyr:</u>
Richard Fairhead, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân - Prospect, yn cynrychioli'r gweithwyr **(Cadeirydd)**
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Bob Mason, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Blythe Roberts, Undeb yr FBU
Duncan Stewart-Ball, Undeb yr FBU

<u>Yn cynghori</u>
Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol
Julie Brown, Rheolwr Pensiynau

<u>Yn cofnodi</u>
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau

Cafodd Richard Fairhead ei ethol i gadeirio'r cyfarfod.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Simon Glyn
Kevin Gerrard, Rheolwr Pensiynau Cronfa Bensiwn Dyfed
Martin Morgan, Rheolwr Pensiynau Cronfa Bensiwn Dyfed.

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mai 2020 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

4 CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

4.1 Fe wnaeth y Rheolwr Pensiynau gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am aelodaeth y cynllun, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Cyfathrebu ag Aelodau
- Rhwymedi Gwahaniaethu ar Sail Oedran (Sargeant)
- Dyfarniad Booth
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru
- Golwg gyffredinol ar fwletinau a chylchlythyrau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

4.2 Nodwyd mai'r sefyllfa ar hyn o bryd yw nad yw 85 o weithwyr yr ochr weithredol wedi cofrestru yn un o gynllun pensiwn y diffoddwyr tân ond y rheswm am hyn yn rhannol yw'r ffaith fod staff dyletswydd wrth gefn (RDS) yn cael mynediad at bensiwn drwy eu prif gyflogwr. Nodwyd bod mesurau'n cael eu cymryd drwy'r amser i fynd ati drwy gymorthfeydd pensiwn a'r Briff Wythnosol i annog y gweithwyr i ymaelodi â'r cynllun pensiwn.

4.3 Gofynnwyd i bawb sy'n cynrychioli gwahanol gyrff cynrychioliadol i annog eu holl aelodau i fynd ar 'Fy Mhensiwn Ar-lein' i fonitro eu pensiwn. Awgrymwyd y dylid anfon gohebiaeth ysgrifenedig drwy Undeb yr FBU i bob aelod er mwyn cynyddu'r defnydd ohono.

4.4 Yn dilyn yr achos ynghylch gwahaniaethu ar sail oedran (Sargeant), pryd dyfarnodd y Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015 yn rhai gwahaniaethol, ac felly, yn erbyn y gyfraith, mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi ymgynghoriad erbyn hyn, ynghylch cynigion yn ymwneud â'r diwygiadau i bensiynau gwasanaethau cyhoeddus yn 2015. Bydd ATAGC yn anfon ymateb i'r ymgynghoriad.

4.5 Daeth dyfarniad Booth i'r casgliad fod y lwfans criw dydd a'r lwfans hyfforddi yn cael eu hystyried yn rhai pensiynadwy os oeddent yn cael eu talu dan drefniant parhaol. Er nad yw'r dyfarniad yn rhwymol yn gyfreithiol i bob awdurdod tân ac achub, mae ATAGC yn cydnabod y byddai baich weinyddol yn gysylltiedig â mynd i gyfraith felly rhoddodd ganiatâd ym mis Mawrth 2020 i'r swyddogion geisio cael cytundeb lleol ynghylch y mater. Mae'r Gwasanaeth wedi bod mewn cysylltiad ag Ysgrifennydd Rhanbarthol Undeb yr FBU i ffurfioli cytundeb lleol sy'n dderbyniol i bob ochr; nodwyd y bydd angen i'r cytundeb drafft hwn gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Tachwedd ac y bydd cadarnhad o hynny yn dod gerbron y Bwrdd Pensiwn Lleol yn Ionawr 2021.

4.6 Cafodd yr aelodau wybod am ymgyngoriadau sy'n agored ar hyn o bryd, sef: Ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ynghylch newidiadau a gynigir i gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yn dilyn dyfarniadau'r Goruchaf Lys yn achosion Walker a McLaughlin. Hefyd, mae'r ymgynghoriad yn delio â mân newidiadau eraill.

4.7 Roedd dyfarniad y Goruchaf Lys yn Walker v Innospec o'r farn y dylai partneriaid sifil a gwŷr a gwragedd o'r un rhyw fod â hawl i'r un hawl i fuddion goroeswyr â'r rhai a roddir i oroeswyr priodasau o'r rhyw arall.

**4.8 PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

5 Y DIWEDDARAF GAN GRONFA BENSIWN DYFED (GWEINYDDWR CYNLLUNIAU)

5.1 Oherwydd problemau gyda fideo-gynadledda, methodd K Gerard ac M Morgan â mynychu'r cyfarfod, felly rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y PSC MacArthur.

5.2 Nodwyd bod tîm Cronfa Bensiwn Dyfed yn parhau i wneud ei holl waith heb ormod o darfu ers dechrau'r achosion o Covid-19. Roedd y PSC MacArthur yn ddiolchgar fod y gweinyddwyr yn brofiadol ym maes pensiynau'r Gwasanaeth Tân ac Achub, a gan y bydd cymaint o newidiadau a materion yn y flwyddyn neu ddwy nesaf, bydd yn dda cael gweinyddwyr sydd mor wybodus a phrofiadol. Nodwyd hefyd y bydd angen diweddaru meddalwedd i wneud y gwaith angenrheidiol.

**5.3 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN

6.1 Rhoddodd y PSC MacArthur wybodaeth i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod o Fwrdd Cynghori'r Cynllun a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2020. Roedd yr agenda'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- yr ymgynghoriad ar y rhwymedi yn deillio o'r dyfarniad cyfreithiol (Sargeant) yn dilyn yr honiad o wahaniaethu ar sail oedran yn deillio o'r trefniadau pensiwn trosiannol yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015;
- yr wybodaeth ddiweddaraf am brisiad actiwaraidd Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn 2020;
- yr wybodaeth ddiweddaraf am ddata cynlluniau, gan gynnwys achosion o optio allan o'r pensiwn.

6.2 O ran y prisiad actiwaraidd, nododd yr Aelodau fod y cynlluniau pensiwn yn cael eu prisio mewn cylch o bedair blynedd a bod hynny'n cael ei wneud gan actiwari a benodir. Mae'r broses actiwaraidd yn un gymhleth ac mae'n darparu amcangyfrif o werth presennol rhwymedigaethau yn y dyfodol. Mae'r prisiad hefyd yn ystyried y

cyfraniadau a ragwelir i'r cynlluniau, ac mae'n cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr a'r gweithwyr. Caiff yr Aelodau wybod am y datblygiadau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**6.3 PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

7 Y GOFRESTR RISGIAU – GWEITHREDIADAU

7.1 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y Rheoleiddiwr Pensiynau yn argymell bod aelodau Bwrdd Pensiwn Lleol yn mynd ati ymhob cyfarfod o'r Bwrdd i ystyried ac adolygu eu Cofrestr Risgiau.

7.2 Y tro hwn, y maes gweithrediadau ar y gofrestr risgiau gafodd ei rannu gyda'r Aelodau. Nodwyd mai Seiber-droseddu sydd â'r risg uchaf, ac 16 yw ei sgôr. Fodd bynnag, nodwyd bod y maes hwn yn parhau i gael ei fonitro'n agos ymhob rhan o'r Gwasanaeth. Nodwyd bod y matrics sgoriau yn dangos lefel y risg ar ôl ystyried ffactorau a rheolaethau lliniaru.

**7.3 PENDERFYNWYD nodi'r Maes Risg Gweithrediadau ar y Gofrestr yn 2020-21, ac y bydd unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau yn cael eu cynnwys yn y gofrestr a'r ddogfen ddiwygiedig a gyhoeddir ar wefan yr Awdurdod**.

8 MATERION I'W CYFEIRIO I'R ATA

8.1 Bydd y cyfarfod nesaf o'r ATA yn cael ei gynnal ar 9 Tachwedd, a dyma'r materion i'w cyfeirio i'r cyfarfod hwnnw:

- Adroddiad Blynyddol a Chylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol
- Cymeradwyo polisi disgresiynau ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân
- Y wybodaeth ddiweddaraf am yr her gyfreithiol i'r trefniadau trosiannol
- Elfennau o gyflog pensiynadwy yng nghynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân
- Cynllun prisio.

9 UNRHYW FATER ARALL

9.1 Gofynnwyd i'r Aelodau barhau gyda'u hyfforddiant ar bensiynau ar-lein ac i gysylltu â'r Rheolwr Pensiynau os oes angen cymorth arnynt ar faes arbennig. Rhagwelir y bydd y cyfarfodydd yn dychwelyd yn y dyfodol i gynnwys slot ar hyfforddiant ar yr agenda, ac eto os oes angen hyfforddiant penodol ar yr aelodau dylent gysylltu â'r Rheolwr Pensiynau.